Creu **bwydwyr moch coed**

Gwledd i'r adar yn y gaeaf wrth i chi faeddu'ch dwylo.

Byddwch angen

- Moch coed (a'r pinwydd wedi sychu er mwyn iddyn nhw agor!)
- Hadau adar
- Rheisins
- Cnau daear
- Caws wedi'i falu
- Siwed neu lard
- Powlen gymysgu
- Siswrn
- Llinyn

1 Gwnewch y gymysgedd bwyd adar i ddechrau. Cynheswch y lard i wres yr ystafell, ond peidiwch â'i doddi. Yna, torrwch o'n ddarnau bach a'u rhoi yn y fowlen gymysgu.

2 Ychwanegwch y cynhwysion eraill i'r fowlen. Cymysgwch nhw gyda'ch bysedd, nes bo'r saim yn dal y llanast gludiog gyda'i gilydd.

3 Clymwch linyn ym mhen y moch coed, ac yna'u llenwi gyda'r bwyd adar.

4 Rhowch y moch goed yn yr oergell am rhyw awr i setio. Nawr gallwch eu hongian gan roi pryd i gynhesu'r adar.

Cadwch yn ddiogel

Peidiwch â gwneud hyn os oes gennych alergedd cnau. Hyd yn oed os nad oes gennych alergedd, peidiwch â bwyta unrhyw gnau daear sydd wedi cael eu gwerthu fel bwyd adar. Nid ydyn nhw'n addas i ni eu bwyta.

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan David Tipling (rspb-images.com).